

1. Mae rhandiroedd yn cael eu derbyn ar delerau 'fel maen nhw i'w gweld'. Cyfrifoldeb y deiliad yw'r rhandir unwaith y bydd wedi'i dderbyn.
2. Mae rhandiroedd nad ydyn nhw'n cael eu cynnal a'u cadw yn cael effaith ar rhandiroedd gerllaw – am y rheswm yma mae Deddfau Rhandiroedd 1950 (a'r rhai cynharach) yn golygu bod rhaid **Atal Niwsans**.

Cyfrifoldeb deiliad y llain yw cynnal a chadw unrhyw wrychoedd, borderi a llwybrau sydd wedi'u lleoli ar eu llain. Rhaid sicrhau bod unrhyw ordyfiant yn cael ei dorri'n ôl a sicrhau nad yw'n achosi rhwystr i ddeiliaid lleiniau eraill nac yn creu rhwystr i unrhyw dir neu gerbyd y tu hwnt i ffiniau'r safle.

3. Mae'n rhaid i bob rhan o'r rhandir gael ei chadw mewn cyflwr rhesymol, yn lân/taclus, heb chwyn ac mewn cyflwr tyfu da. Dylai'r rhan gael ei gorchuddio neu ei thorri er mwyn ei chadw mewn cyflwr da.
4. Os bydd gyda deiliad rhandir unrhyw gŵyn yn ymwneud â rhandir sydd heb ei gynnal a'i gadw, cysylltwch â'r Cyngor.
5. Os na fydd modd i ddeiliad fod yn cynnal a chadw'r rhandir oherwydd salwch neu amgylchiadau arbennig, fe ddylai gysylltu â'r Cyngor i roi gwybod i ni am y sefyllfa (dim ond pan fo hynny'n berthnasol y bydd cyfnod gras yn cael ei roi), gan geisio cymorth rhywun arall i ofalu am y rhandir yn ystod y cyfnod yma. ****Nodwch** Os bydd 3 llythyr yn cael eu hanfon at ddeiliad rhandir o fewn 2 flynedd, ynghylch diffyg cynnal a chadw'r rhandir, bydd y denantiaeth yn dod i ben yn awtomatig.

Bydd y Cyngor yn gweithredu yn sgil:-

6. Unrhyw rhandiroedd nad ydyn nhw'n cael eu cynnal a'u cadw, neu nad ydyn nhw'n cael eu gorchuddio. Os digwydd hyn, cewch rybudd ysgrifenedig sy'n rhoi cyfnod o fis i chi fynd i'r afael â'r mater. Os na fyddwn ni'n cael ymateb neu os na fydd gwaith yn cael ei wneud ar y rhandir, bydd llythyr arall yn cael ei anfon atoch chi, a bydd gofyn i chi symud eich eiddo o'r rhandir a dychwelyd yr allwedd o fewn 14 niwrnod (p'un ai ydych chi wedi talu am y tymor neu ddim)
7. Rhaid i gŵn gael eu cadw ar dennyn a dan reolaeth ar y rhandir. Ni chaiff cŵn fyw ar unrhyw rhandir. Gofalwch eich bod yn rhoi baw eich ci yn y bin.
8. Chewch chi ddim benthyg na defnyddio offer na chynnyrch person arall, na mynd ar eu rhandir nhw, heb ganiatâd y deiliad rhandir dan sylw.
9. Ddylech chi ddim dod â deunyddiau gwastraff i'r rhandir a dylech fynd â phob sbwriel a deunydd gwastraff oddi ar eich rhandir.
10. Caiff rhannau o rhandiroedd eu cynnig at ddibenion tyfu personol yn unig. Ddylech chi ddim is-osod eich rhan na defnyddio'r man tyfu at unrhyw ddiben neu fudd masnachol.
11. Chewch chi ddim cymryd mwynau, graean, tywod, clai, gwrtait h na naddion pren, na'u gwerthu na'u cludo ymaith o'r safle, pan fydd y rhain wedi'u gosod yno i bawb eu defnyddio.

12. Chewch chi ddim plannu unrhyw goed na pherthi ffrwythau nac unrhyw gnydau y mae angen mwy na 12 mis arnyn nhw i ddod i'w llawn dwf, heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor.
13. Chewch chi ddim cadw anifeiliaid pluog ar y rhandir heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor yn gyntaf. Mae da byw (anifeiliaid â charnau) wedi'u gwahardd ar bob safle. Ddylech chi ddim defnyddio weiren bigog yn ffens.
14. Chewch chi ddim mynd ar unrhyw un o safleoedd Rhandiroedd RhCT rhwng 10.00pm a 5.00am.
15. Chewch chi ddim codi strwythur sy'n adeilad, shed, lloc anifeiliaid, ffens na gwrych ar y tir dan sylw heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor, YN OGYSTAL Â HYN os oes adeilad, cwt neu strwythur o'r fath sydd yn flêr yr olwg yn bodoli eisoes ar y rhandir mae gan y Cyngor yn ôl ei ddisgresiwn yn llwyr, yr hawl i ofyn i'r tenant ei symud oddi ar y safle. Bydd ffioedd cynllunio'n cael eu codi ar ddeiliad y rhandir am unrhyw ganiatâd cynllunio ôlddyledus.
16. Chewch chi ddim cynnau unrhyw goelcerthi ar y tir dan sylw. Mae gyda'r deiliad yr hawl i losgi gwastraff o'r ardd o gyfnod y gwyll, ond mae rhaid i'r deiliad dan sylw fod yn bresennol ac yn rheoli'r fflamau, bob amser. Mae gofyn i'r deiliad ddiffodd y fflamau cyn gadael y rhandir. Chaiff y deiliad ddim gadael tanau sydd heb eu goruchwyllo.
17. Chaiff y deiliad ddim cadw unrhyw gerbydau o gwbl gan gynnwys carafanau ar y tir dan sylw – Cyfrifoldeb y perchennog yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei barcio ar y safle, felly hefyd unrhyw eiddo.
18. Chaiff y deiliad ddim defnyddio unrhyw blaladdwyr a fydd yn achosi difrod i randoedd eraill, ac mae rhaid i unrhyw blaladdwyr sy'n cael eu defnyddio fod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth ynghylch Plaladdwyr. Dylai deiliad chwistrellu unrhyw chwynladdwyr ar ddiwrnod llonydd gan wneud hynny mewn modd sy'n ystyriol o'r rhandiroedd gerllaw.
19. Cyfrifoldeb y perchennog yw unrhyw eiddo sy'n cael ei gadw ar safleoedd RhCT. Dylai'r heddlu gael gwybod am unrhyw achosion o ddwyn, lladrata, neu ddifrod troseddol, a'r rhif i'w ffonio yw 101. Dylai rhif trosedd yr achos gan yr heddlu gael ei roi i'r Cyngor ynghyd â manylion ynghylch y drosedd.
20. Rhaid talu anfonebau blynyddol oni bai bod y Cyngor wedi derbyn Hysbysiad Ymadael cyn dechrau'r tymor ar 1 Ebrill bob blwyddyn. Bydd anfonebau blynyddol yn cael eu hanfon i'r cyfeiriad roddoch chi wrth gofrestru, a dylai'r rhain gael eu talu o fewn 21 niwrnod o ddyddiad yr anfoneb. Os bydd deiliad yn dewis peidio dal gafael ar y rhandir mwyach wedi 1 Ebrill, bydd rhaid i unrhyw anfoneb ar gyfer y tymor tyfu hwnnw gael ei dalu. Ar ôl derbyn y llain a gynigwyd, bydd unrhyw ddeiliad llain newydd yn parhau i fod yn atebol am y ffi flynyddol hyd yn oed os caiff y llain ei roi yn ôl yn ystod blwyddyn gyntaf y denantiaeth.
21. Os daw unrhyw ddeiliad rhandir ar draws Deunyddiau ac Ynddyn Nhw Asbestos (ACM) ar y safle, yna fe ddylen nhw gysylltu â'r Cyngor a fydd yn trefnu cael gwared ar y deunydd mewn modd diogel oddi ar y safle. Yn ystod yr amser y bydd deiliad y rhandir yn aros i'r deunydd gael ei gasglu, gall weithio o'i amgylch, ond ni ddylai ei symud na'i gyffwrdd.

22. Mae rhandiroedd sy'n cael eu cynnal a'u cadw a'u gorchuddio'n briodol yn helpu i atal materion llifogydd. Ddylech chi ddim gwyro dŵr o'ch rhandir na chreu sianeli draenio, na defnyddio gorchuddion plastig ond yn hytrach rhai athraidd, hyn er mwyn osgoi llif dŵr wyneb, a llifogydd.
23. Gair i atgoffa bod unrhyw aelodau o deulu neu ymwelwyr deiliad y rhandir, sy'n dod i'r rhandir, yn gwneud hynny ar eu menter ei hunain, yn gwmni i ddeiliad cofrestredig y rhandir neu â'i ganiatâd; cyfrifoldeb y deiliad yw gweithredoedd y personau yma.

Os oes unrhyw gwestiynau gyda chi, e-bostiwch rhandiroedd@rctcbc.gov.uk

Neu ffoniwch: 01443 425 001

Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw ymddygiad boed yn llafar neu gorfforol, sy'n cael ei ystyried yn boenydio neu'n fwlio gan ddeiliad rhandir arall. Os bydd deiliad yn rhoi gwybod am sefyllfa o'r fath i'r Cyngor gallai hyn arwain at ddod â chytundeb deiliaid y rhandir i ben yn y fan a'r lle, heb rybudd.